OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 256 (Cy. 12)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

Gwnaed	*5 Ionawr 2015*
Yn dod i rym	*12 Ionawr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Birkenhead (yr A494/A550) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig mewn darnau penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, dehongli a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. hyd cyfan ffordd gyswllt yr A494 tua'r dwyrain o'i chyffordd â phrif gerbytffordd yr A494 yn Sir y Fflint hyd at ei chyffordd â'r A550 tua'r gogledd;

ii. y darn o'r slipffordd ymuno tua'r gogledd ar gefnffordd yr A550 yng Nghyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o gylchfan yr

A548 hyd at ffin Cymru/Lloegr ar ffordd gyswllt yr A550;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 22:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2015 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

5. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Ionawr 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.